Ymateb Llais i'r Papur Gwyn ar Brawfesur Gwledig a Chynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru

Cefndir Llais

Llais yw'r bwrdd statudol annibynnol sy'n adlewyrchu safbwyntiau ac yn cynrychioli diddordebau pobl sy'n byw yng Nghymru o ran eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel bod llais pawb yn gallu cael ei glywed, a'i ddefnyddio i arwain cynllunio, dylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i bawb. Rydym yn:

- estyn allan er mwyn clywed gan bobl o fewn ein cymunedau lleol drwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Rydym yn gwneud hyn fel bod pobl yn gwybod amdanom ac yn deall yr hyn a wnawn, ac er mwyn casglu eu barn a'u profiadau o'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Gwnawn hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â llefydd lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal.
- defnyddio'r hyn a glywn er mwyn helpu gwasanaethau gofal a chymdeithasol i ddeall yn well sut mae rhai ohonom a allai fod angen gwasanaethau, ac sy'n eu defnyddio ar hyn o bryd, yn meddwl bod gwasanaethau'n bodloni eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddynt hwy. Rydym yn helpu i sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gweithredu er mwyn gwneud pethau'n well lle mae ei angen.
- Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag arweinwyr gwasanaeth gofal iechyd a chymdeithasol pan maent yn ystyried gwneud newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu, fel bod pobl a chymunedau'n cael dweud eu dweud o'r cychwyn.

- darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol er mwyn helpu pobl i fynegi eu pryderon ynghylch gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Rydym wedi gweithredu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Mae ein hymateb yn adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i glywed yn uniongyrchol a thrwy eraill, yn arbennig felly gan bobl:

- sydd wedi ymgysylltu â ni mewn digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol
- sydd wedi defnyddio ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion i fynegi pryder ynghylch eu profiad fel
- pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac anghysbell ar hyd a lled Cymru;
- darparwyr trafnidiaeth cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol sy'n cefnogi poblogaethau gwledig; a
- sefydliadau sy'n cynrychioli diddordebau pobl a all brofi rhwystrau at gael mynediad at wasanaethau oherwydd daearyddiaeth, trafnidiaeth, eithrio digidol neu dlodi.

Mae ein hymateb i Bapur Gwyn ar Brawfesur Gwledig a Chynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y ddyletswydd prawfesur gwledig statudol arfaethedig, gan adlewyrchu ein rôl fel corff statudol annibynnol sy'n cynrychioli barn pobl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'u profiad ohonynt, a'n diddordeb fel corff cyhoeddus yr arfaethir iddo fod o fewn cwmpas y ddyletswydd.

Rydym yn gweithio gyda phobl, cymunedau, darparwyr gwasanaeth, rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartneriaid ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau bod profiadau pobl yn helpu i lunio gwasanaethau a phenderfyniadau. Drwy ein gweithgaredd ymgysylltu, ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a gwaith ehangach, rydym yn clywed yn uniongyrchol

gan bobl ynghylch y realiti o gael mynediad at wasanaethau, a'u defnyddio, mewn cymunedau trefol, gwledig ac anghysbell.

Gall pellter, trafnidiaeth, heriau yn y gweithlu, eithrio digidol, mynediad at wasanaethau, fforddiadwyedd ac argaeledd cefnogaeth i gyd effeithio ar allu pobl i gael mynediad at y gofal a'r gwasanaethau maent eu hangen. Rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at ddatblygu fframwaith statudol fydd yn sicrhau bod ystyriaethau gwledig yn cael eu hadlewyrchu'n gyson wrth wneud penderfyniadau.

Safbwynt Cyffredinol

Mae Llais yn croesawu'r cynnig i gyflwyno dyletswydd prawfesur gwledig statudol ac mae'n cefnogi'r egwyddor y dylai amgylchiadau, profiadau ac anghenion cymunedau gwledig gael eu hystyried yn gyson, yn dryloyw ac ar gam cynnar wrth ddatblygu polisi, cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Drwy ein gwaith gyda phobl a chymunedau led-led Cymru, rydym yn clywed yn rheolaidd am y traweffaith mae daearyddiaeth, trafnidiaeth, argaeledd gweithlu, mynediad digidol a'r seilwaith ehangach yn gallu ei gael ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau a chefnogaeth. Mae'r ffactorau hyn yn aml yn rhyngweithio a gallant greu rhwystrau ychwanegol i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Rydym yn cydnabod y cyfle mae'r ddyletswydd arfaethedig yn ei chyflwyno er mwyn atgyfnerthu sut mae profiadau gwledig yn cael eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau ac i gefnogi gwell dealltwriaeth o sut mae polisïau a gwasanaethau'n cael eu profi yn ymarferol.

Fodd bynnag, ni ddylid mesur llwyddiant y ddyletswydd ar p'un a yw prawfesur gwledig wedi digwydd ai peidio. Yn y pen draw, dylai ei heffeithiolrwydd gael ei barnu yn ôl p'un a yw'n cyfrannu at benderfyniadau sy'n adlewyrchu'n well realiti bywyd gwledig, sy'n cefnogi mynediad tecach at wasanaethau ac sy'n lleihau rhwystrau a brofir gan gymunedau gwledig. Fel gydag unrhyw weithgaredd gwelliant, un prawf defnyddiol yw p'un a yw pobl yn gallu gweld a theimlo'r gwahaniaeth.

Hoffai Llais annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddyletswydd yn parhau i fod yn ymarferol, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na chydymffurfiaeth.

Lleisiau a Phrofiad Bywyd Pobl

Mae Llais yn credu mai un o'r cyfleoedd mwyaf sy'n cael ei ddarparu gan y ddyletswydd arfaethedig yw'r potensial i atgyfnerthu rôl profiad bywyd o fewn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae profiadau pobl yn darparu mewnwelediad pwysig i sut mae polisïau a gwasanaethau'n gweithredu yn ymarferol. Maent yn helpu i adnabod rhwystrau nad ydynt bob amser yn weladwy drwy ddata meintiol a gallant wella dealltwriaeth o'r traweffaith cronnol y gall penderfyniadau eu cael ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.

Drwy ein hymgysylltu, eiriolaeth a gwaith cynrychiolaeth, rydym yn clywed yn rheolaidd am broblemau gan gynnwys costau teithio, anawsterau i gael mynediad at apwyntiadau, eithrio digidol, cyfrifoldebau gofalu, argaeledd cyfyngedig gwasanaethau lleol a heriau wrth gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r profiadau hyn yn darparu dealltwriaeth werthfawr o sut mae pobl yn profi gwasanaethau a dylent gael eu cydnabod fel ffynhonnell dystiolaeth bwysig o fewn y broses prawfesur gwledig.

Dylai cyrff cyhoeddus fod yn gallu dangos:

- â phwy maent wedi ymgysylltu;
- sut wnaeth cymunedau gwledig gymryd rhan;
- pa faterion gafodd eu hadnabod;
- sut wnaeth safbwyntiau fod yn sail i wneud penderfyniadau;
- beth newidiodd o ganlyniad i hynny; a
- sut y bu i adborth gael ei ddarparu i gymunedau.

Mae'r dull hwn yn alinio'n agos gydag Egwyddorion Pobl Llais, sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwrando ar gamau cynnar, gan alluogi pobl i

ddylanwadu ar benderfyniadau a dangos sut mae eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth.

Prawfesur Gwledig fel Mater o Degwch a Chwarae Teg

Hoffai Llais annog Llywodraeth Cymru i fframio prawfesur gwledig fel mater o degwch a chwarae teg.

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig gyda gwledigrwydd yn aml yn cael eu profi ochr yn ochr â ffactorau eraill gan gynnwys oedran, anabledd, tlodi, cyfrifoldebau gofalu di-dâl, cyflyrau iechyd tymor hir ac eithrio digidol. O ganlyniad, gall pobl brofi nifer o rwystrau, gyda rhai ohonynt yn rhyngweithio â'i gilydd, wrth geisio cael mynediad at wasanaethau a chefnogaeth.

Drwy ein gwaith, rydym yn clywed pryderon arbennig o gryf gan ofalwyr di-dâl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae cyfrifoldebau gofalu'n aml yn cael eu profi ochr yn ochr â gofynion teithio, cyfyngiadau o ran trafnidiaeth, ymrwymiadau gwaith a mynediad cyfyngedig at gefnogaeth leol, gan greu pwysau ychwanegol i bobl sydd eisoes yn darparu lefelau sylweddol o ofal.

Rydym yn clywed yn rheolaidd am draweffaith:

- amser teithio hirach;
- opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig;
- costau teithio uwch;
- prinder o fewn gweithlu;
- eithrio digidol;
- llai o argaeledd gwasanaethau lleol;
- anawsterau yn cael mynediad at ddarpariaeth arbenigol;
- heriau wrth gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- anawsterau cael mynediad at ofal cynradd a deintyddiaeth y GIG;

- anawsterau cael mynediad at ofal yn y cartref a chefnogaeth sy'n seiliedig ar y gymuned;
- pwysau ar ofalwyr di-dâl; a
- llai o weledd ac argaeledd o ran gwasanaethau ymyrraeth gynnar.

Dylai prawfesur gwledig effeithiol gydnabod sut all daearyddiaeth ryngweithio gydag annhegwch ehangach ac effeithio ar wahanol bobl a chymunedau gwahanol.

Ystyriaethau Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae gan y ddyletswydd arfaethedig berthnasedd arbennig i wasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Drwy ein gwaith ymgysylltu ac eiriolaeth, mae pobl yn aml yn disgrifio sut mae eu profiadau wedi'u llunio nid yn unig gan y gwasanaethau sydd ar gael, ond gan p'un a yw'r gwasanaethau hynny'n gallu cael eu cyrchu'n hawdd ac mewn ffordd ymarferol mewn bywyd o ddydd i ddydd.

Mae profiadau pobl yn cael eu dylanwadu gan ffactorau megis amserau teithio, argaeledd trafnidiaeth, fforddiadwyedd, argaeledd gweithlu, mynediad digidol, cyfrifoldebau gofalu a ph'un a oes cefnogaeth ar gael yn nes at adref. Gall y problemau hyn effeithio ar fynediad at wasanaethau a gallu pobl i gael budd ohonynt fel ei gilydd.

Mae prawfesur gwledig yn darparu cyfle i annog rhoi ystyriaeth yn gynt ac yn fwy cyson i'r ffactorau hyn o fewn cynllunio gwasanaeth a gwneud penderfyniadau.

Mae Llais yn credu y dylai sefydliadau ystyried materion sy'n cynnwys:

- mynediad at ofal cynradd a chymunedol;
- deintyddiaeth GIG;
- cymorth iechyd meddwl;
- gofal brys a gofal mewn argyfwng;

- gofal iechyd arbenigol;
- darpariaeth gofal cymdeithasol;
- gofal cartref a gofal yn y cartref;
- cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl;
- gwaith estyn allan a gwasanaethau symudol;
- gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar;
- ymweliadau ysbyty a chefnogaeth teulu;
- amser teithio ac argaeledd trafnidiaeth;
- fforddiadwyedd mynediad;
- cynhwysiant digidol;
- cynaliadwyedd y gweithlu; a
- Gwasanaethau Cymraeg.

Gall ystyriaethau o'r ffactorau hyn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu'r realiti a brofir gan bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn well.

Ystyriaethau Trawsffiniol ac Ar Draws Terfynau

Hoffai Llais hefyd annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y ddyletswydd yn adlewyrchu'r ffordd mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau yn ymarferol.

Drwy ein gwaith, rydym yn clywed yn rheolaidd gan bobl y mae eu gofal a'u cefnogaeth yn croesi terfynau sefydliadol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a therfynau cenedlaethol. I lawer o bobl, yn arbennig felly rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac ar y ffin, mae'r trefniadau hyn yn rhan arferol o fywyd bob dydd.

Dyw pobl ddim yn profi gwasanaethau drwy strwythurau sefydliadol. Maen nhw, yn syml iawn, yn disgwyl i wasanaethau weithio gyda'i gilydd, i wybodaeth symud gyda hwy ac i gyfrifoldebau fod yn eglur.

Lle nad yw hyn yn digwydd, gall pobl brofi gohiriadau, ansicrwydd ac anhawster i ddeall pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o'u gofal a'u cefnogaeth. Mae'r themâu hyn yn ymddangos yn gyson drwy ein gwaith, yn arbennig felly mewn perthynas â gwasanaethau sy'n gweithredu ar draws ffiniau daearyddol a sefydliadol.

Mae'r ddyletswydd arfaethedig yn darparu cyfle i annog gwell ystyriaeth o:

- drefniadau gwasanaeth trawsffiniol;
- parhad o ran gofal;
- rhannu gwybodaeth;
- llwybrau teithio a thrafnidiaeth;
- patrymau defnyddio gwasanaeth;
- partneriaethau rhanbarthol;
- darpariaeth gwasanaeth trawsffiniol; a
- thraweffaith cronnol penderfyniadau a wneir gan wahanol sefydliadau.

Heb ystyriaethau o'r fath, mae peryg y gallai penderfyniadau sy'n ymddangos yn briodol o safbwynt sefydliadol beidio ag adlewyrchu'r realiti a brofir gan y bobl a effeithir.

Tryloywder ac Atebolrwydd

Mae Llais yn credu y bydd tryloywder yn hanfodol i hygrededd ac effeithiolrwydd y ddyletswydd.

Mae cymunedau'n fwy tebygol o gael hyder mewn penderfyniadau pan mae sefydliadau'n gallu dangos yn eglur:

- pa faterion gafodd eu hadnabod;
- pa dystiolaeth a ystyriwyd;
- pa opsiynau a archwiliwyd;

- sut oedd traweffeithiau gwledig yn dylanwadu ar benderfyniadau;
- pa newidiadau a wnaed o ganlyniad; a
- sut fydd deilliannau'n cael eu monitro a'u hadolygu.

Rydym hefyd yn credu ei bod yn bwysig i sefydliadau allu dangos sut mae prawfesur gwledig yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol. Dylai pobl sy'n gallu cyfrannu eu safbwyntiau fod yn gallu deall sut mae'r safbwyntiau a'r profiadau hynny'n cael eu hystyried a pha wahaniaeth a wnaed gan y broses.

Dylai trefniadau adrodd ganolbwyntio ar ddysgu, gwelliant ac atebolrwydd yn hytrach na rhoi tystiolaeth o fod wedi cwblhau proses.

Bydd atebolrwydd eglur yn helpu i sicrhau bod prawfesur gwledig yn dod yn rhan ystyrlon o wneud penderfyniadau yn hytrach na bod yn ymarfer o safbwynt cydymffurfiaeth.

Y Goblygiadau i Llais

Fel sefydliad sy'n gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys nifer o gymunedau gwledig ac anghysbell, mae Llais eisoes yn ystyried y traweffaith mae daearyddiaeth, trafnidiaeth, mynediad ac argaeledd gwasanaethau'n eu cael ar brofiadau pobl.

Mae'r profiadau hyn yn codi drwy ein gweithgareddau ymgysylltu, ein gwaith cynrychiolaeth, ein gweithgaredd polisi a dylanwadu, a thrwy'r wybodaeth a gesglir dwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol.

Mae gan y ddyletswydd arfaethedig y potensial i atgyfnerthu gweledded profiadau gwledig o fewn prosesau gwneud penderfyniadau a chefnogi dealltwriaeth well o sut mae daearyddiaeth yn dylanwadu ar fynediad pobl at wasanaethau a chefnogaeth.

Byddem yn cefnogi dull sy'n adeiladu ar dystiolaeth bresennol, profiad bywyd a gweithgaredd ymgysylltu yn hytrach na chreu prosesau ar wahân neu brosesau sy'n dyblygu.

Bydd hefyd yn bwysig bod ei weithrediad yn cefnogi rôl annibynnol Llais wrth gynrychioli safbwyntiau a diddordebau pobl a chymunedau yr effeithir gan benderfyniadau.

Casgliad

Mae Llais yn croesawu'r cynnig ar gyfer dyletswydd prawfesur gwledig statudol ac yn cydnabod y cyfle mae'n ei gyflwyno i atgyfnerthu sut mae profiadau cymunedau gwledig yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau.

Drwy ein gwaith, mae pobl yn dweud wrthym fod mynediad at wasanaethau nid yn unig yn cael ei lunio gan yr hyn sydd ar gael, ond gan ffactorau ehangach gan gynnwys trafnidiaeth, pellter, fforddiadwyedd, argaeledd gweithlu, mynediad digidol a seilwaith cymunedol. Mae realiti'r ffactorau hyn yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd a gallant gael traweffaith sylweddol ar allu pobl i gael mynediad at y gwasanaethau a'r gefnogaeth maent eu hangen.

Rydym yn credu y bydd gwerth mwyaf y ddyletswydd arfaethedig yn cael ei gwireddu os yw profiad bywyd yn dod law yn llaw â ffurfiau eraill o dystiolaeth ac yn cyfrannu at benderfyniadau sydd wedi'u seilio'n well ar realiti bywyd gwledig.

Yn y pen draw, dylai llwyddiant nid yn unig gael ei fesur drwy gwblhau asesiad prawfesur gwledig, ond gan p'un a yw pobl yn byw mewn cymunedau gwledig yn profi mynediad tecach, llai o rwystrau a mwy o hyder bod penderfyniadau wedi cymryd i ystyriaeth y problemau sy'n cyfrif iddynt hwy.